Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **Ddydd Gwener, 8 Mawrth** 2019 am 9.00am yn 1887, Plas Coch, Wrecsam.

**Presennol**

Mr Jim Barclay
Mr Paul Barlow
Mrs Laura Gough
Mr Angus Hamill-Stewart
Mr Colin Heron
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Kieran Irwin
Yr Athro Sandra Jowett
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr Askar Sheibani
Dr Colin Stuhlfelder
Mr David Subacchi
Mrs Caroline Whiteley

**Swyddogion:** Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Cyllid)*
Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol*)
Mrs Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithrediadau*)

**Ymddiheuriadau:** Mrs Celia Jenkins
Mr Paul McGrady
Dr Jayne Mitchell
Mr Barrie Jones
Mr Lee Robinson
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-ganghellor)*
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*

**Yn bresennol:** Mrs Val Butterworth (Clerc y Bwrdd)

| | | |
|---|---|---|
| **18.55** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>Croesawyd Mr Barclay i'w gyfarfod Bwrdd cyntaf.<br><br>Bydd cyfnod cyntaf yn y swydd Dr Colin Stuhlfelder yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019 ac roedd wedi cadarnhau y byddai'n sefyll eto am ail gyfnod. Dymunwyd y gorau iddo yn y broses etholiad i'w chynnal yn fuan. | |
| **18.56** | **Datgan buddiannau** | |
| | Datganodd Mrs Powell ei bod yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwr Gwyddoniaeth Gogledd Cymru, gan gadarnhau y byddai'n cyflwyno'r cynigion yng nghyswllt is-gwmni Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn ei swyddogaeth fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Brifysgol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Datganodd Mr Barclay ei fod wedi gwneud gwaith ymgynghoriaeth i Do-Well a oedd yn darparu gwasanaeth i'r Brifysgol. Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau. | |
| **18.57** | **Gweithred y Cadeirydd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar weithred y Cadeirydd rhwng cyfarfodydd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Roedd y weithred yn ymwneud â chymeradwyo amrywiad ffioedd yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20 i adlewyrchu gwybodaeth ffeithiol am y newidiadau i bartneriaid academaidd a'r incwm a'r niferoedd myfyrwyr a ragfynegir yn gysylltiedig gyda hyn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.58** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar:<br>(i) 30 Tachwedd 2018.<br>(ii) 25 Ionawr 2019<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2018 a 25 Ionawr 2019 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd. | |
| **18.59** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.60** | **Adroddiad yr Is-ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad ar benodiad yr Is-ganghellor fel aelod o Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.<br>(ii) Adroddiad ar y themâu a'r negeseuon yn deillio o gynhadledd Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2019.<br>(iii) Diweddariad ar y materion a godwyd yn ystod y Diwrnod Strategaeth yn Hydref 2018 ynghylch rhwydweithiau allanol y Brifysgol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Amlinellodd yr Is-ganghellor y broses a arweiniodd at ei phenodi'n aelod o Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, a oedd wedi cynnwys trafodaeth gyda Chadeirydd y Bwrdd a phroses gyfweliadau. Bydd y Corff yn pennu'r cyflogau i athrawon cynradd ac uwchradd am y tro cyntaf ers datganoli cyflogau athrawon. Bydd yn ymrwymiad pum mlynedd. Atgoffwyd yr aelodau y bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried canllawiau i uwch reolwyr ynghylch gwaith allanol yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2019. Gwnaeth yr aelodau longyfarch yr Is-ganghellor ar ei phenodiad.<br><br>Tynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad ynghylch y gynhadledd Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, yn cynnwys: bod cyfranogiad mewn Addysg Uwch yn disgyn y tu ôl i wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad | |

| | | |
|---|---|---|
| | Economaidd; mae'r cyfranogiad yn cael ei yrru gan alw cymdeithasol yn hytrach na galw'r llafurlu; mae llawer o brifysgolion yn dibynnu'n drwm ar gyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer eu gwaith ymchwil y disgwylir y bydd hyn yn gostwng yn sylweddol os bydd Brexit heb gytundeb yn digwydd; gallai pynciau ac eithrio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) fod ar eu colled yn dilyn Adolygiad Augar, gan nodi yng Nghymru dim ond meddygaeth a'r *conservatoire* sy'n cael eu dynodi'n bynciau cost uchel; mae angen cael eglurhad ynghylch diffiniad pynciau STEM yng Nghymru; ac mae angen cydweithredu agosach i sefydlu mwy o lwybrau Addysg Bellach i Addysg Uwch rhwng sefydliadau sy'n lleol i'w gilydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.61** | **Yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad gan Lywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Llongyfarchwyd yr Undeb Myfyrwyr ar ganlyniad yr asesiad Ansawdd Undeb Myfyrwyr, a fyddai'n cael ei wneud yn gyhoeddus ym mis Mehefin.<br><br>Roedd myfyrwyr wedi bod yn rhan o'r Adolygiad Gwella Ansawdd ac roedd y Llywydd o'r farn bod yr ymweliad cyntaf yn Chwefror wedi mynd yn dda.<br><br>Bu gwelliannau o ran ymgysylltu gyda myfyrwyr gyda 75% o gynrychiolwyr myfyrwyr wedi'u recriwtio ac roedd y gynhadledd ddiweddar i gynrychiolwyr myfyrwyr wedi bod yn llwyddiant. Mae 'Dweud wrth Glyn' yn gweithio'n effeithiol ac mae'r adborth a dderbynnir trwy'r dull yma yn cael ei ystyried yn werthfawr.<br><br>Bu'r aelodau'n ystyried mater cysylltedd Technoleg Gwybodaeth, gan fod problemau cyson gyda'r WiFi yn ddiweddar. Roedd myfyrwyr yn gwneud sylwadau cyffredinol am broblemau TG yn aml, ond nawr mae Dweud wrth Glyn yn gofyn am leoliad unrhyw broblemau fel y gall y gwasanaethau TG ymchwilio iddynt a'u cywiro. Defnyddiwyd buddsoddiad o £250k y flwyddyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf i wella Adnoddau Dysgu, yn cynnwys TG, ac roedd llawer o'r mannau heb WiFi gyda darpariaeth yn awr. Roedd rhai mannau heb signal ffôn symudol hefyd oherwydd lleoliad y mast. Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad ar y gweithredoedd sy'n cael eu cyflwyno, yn unol â'r adnoddau sydd ar gael, i wella cysylltedd.<br><br>Adroddwyd nad oedd unrhyw themâu cyffredin yn deillio o'r achosion yr oedd Canolfan Gyngor yr Undeb Myfyrwyr yn delio gyda nhw. Roedd yr Undeb Myfyrwyr o'r farn bod y cynnydd yn yr achosion yn adlewyrchiad o fwy o fyfyrwyr yn defnyddio'r gwasanaeth. Roedd y ffaith bod strwythurau cyfadrannau wedi'u halinio yn awr yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol i gynorthwyo'r Undeb Myfyrwyr gymharu profiad myfyrwyr ar draws y cyfadrannau.<br><br>Nodwyd bod rhai myfyrwyr wedi cael anhawster sicrhau apwyntiadau sgiliau astudio. Adroddwyd y bu rhai problemau adnoddau tymor byr yn y maes hwnnw'n ddiweddar, a oedd yn cael eu datrys, yn ogystal â datblygu mwy o adnoddau ar-lein i ddarparu mynediad haws at gymorth sgiliau astudio. Nid oedd unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng myfyrwyr yn medru cael mynediad at sgiliau astudio mewn modd amserol a thynnu'n ôl o astudiaethau, er y cydnabuwyd y gallai gael effaith ar gadw myfyrwyr.<br><br>Roedd lefel ac ehangder y cymorth a'r gefnogaeth ar gael i fyfyrwyr wedi gwneud argraff ar y Llywodraethwyr a wnaeth ymweld â'r digwyddiad Bywyd Campws a Myfyrwyr ar 14 Chwefror. Holwyd pam y bu cynnydd yn y myfyrwyr yn gofyn am | **LP** |

| | | |
|---|---|---|
| | gymorth gydag amgylchiadau lleddfol o ran cyflwyno gwaith, ac a oedd hyn oherwydd hygyrchedd gwael at y dogfennau. Nid oedd yr Undeb Myfyrwyr yn gwybod yn union beth oedd y rhesymau am y cynnydd, ond roedd yn ei ystyried yn gadarnhaol cyfeirio myfyrwyr at y dogfennau perthnasol a'u cynorthwyo i'w llenwi, lle bo angen.<br><br>Eglurwyd bod yr Undeb Myfyrwyr yn datblygu ei ymgysylltu gyda sefydliadau partner, a oedd yn cynnwys darpariaeth rhyddfraint gan bartneriaid yn y Deyrnas Unedig a rhyngwladol. Adroddwyd bod gan sefydliadau partner yr un mecanweithiau llais myfyrwyr yn eu lle â'r rhaglenni a ddarparwyd yn y campysau yng ngogledd ddwyrain Cymru. Roedd angen ystyried materion diwylliannol wrth ofyn am adborth gan fyfyrwyr rhyngwladol.<br><br>Roedd nifer o ddigwyddiadau wedi'u trefnu yng nghalendr yr Undeb Myfyrwyr, yn cynnwys: canlyniadau etholiadau'r Undeb Myfyrwyr ar 21 Mawrth, y 'Varsity' gyda champws Warrington Prifysgol Caer ar 27 Mawrth; y gwobrau blynyddol i fyfyrwyr ar 8 Ebrill; a chynhadledd genedlaethol Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS), 9-11 Ebrill, a allai arwain at newidiadau yn y gweithrediadau a'r rhyngweithio gyda'r Undebau Myfyrwyr. Byddai gwahoddiadau i ddigwyddiadau perthnasol yn cael eu hanfon at y llywodraethwyr.<br><br>Yn olaf, tynnwyd sylw bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud £2m ar gael trwy CCAUC i gyllido mentrau iechyd meddwl ym mhrifysgolion Cymru.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **VB** |
| **18.62** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad diweddariad ar y cynnydd o ran Campws 2025.<br>(ii) Cynigion ar gyfer gwaith uwchraddio coridor B.<br>(iii) Adroddiad ar ganlyniadau'r cyfarfod ar 28 Chwefror gyda'r awdurdod cynllunio a Cadw.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Nodwyd bod yr awdurdod cynllunio a Cadw wedi gwrthwynebu maint a lleoliad yr adeilad Porth Dysgu arfaethedig. Byddai gwella gwelededd y Brifysgol o Ffordd yr Wyddgrug yn cael ei gadw trwy dirlunio a chreu 'plaza' i gerddwyr. Fodd bynnag, daethpwyd i gyfaddawd ynghylch y Porth Dysgu a byddai'n cael ei leoli ar gyffordd y blociau A a D. Byddai dymchwel yr adeilad Undeb Myfyrwyr cyfredol, sy'n adeilad rhestredig, yn cael ei gefnogi ac ni fyddai'r adeilad Peirianneg sy'n bodoli eisoes yn cael ei wneud yn adeilad rhestredig petai'r datrysiad hwn yn cael ei fabwysiadu. Byddai angen cyfnod ymgynghori 14 diwrnod yng nghyswllt ailddylunio'r adeilad Porth Dysgu. Bellach roedd yn debygol y byddai ceisiadau cynllunio'r Brifysgol y cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Mehefin 2019.<br><br>Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi craffu ar y cynigion uwchraddio'r coridor B ac yn argymell cymeradwyo'r gwariant. Nodwyd y byddai'r gwaith yn dechrau wythnos yn ddiweddarach na'r hyn a nodwyd oherwydd arholiadau. Fodd bynnag, disgwylid y byddai'r gwaith yn parhau i gael ei gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad Campws 2025.<br><br>CYMERADWYO'R gwaith uwchraddio'r coridor B a'r gwariant cysylltiedig. | |

| | | |
|---|---|---|
| **18.63** | **Gwyddoniaeth Gogledd Cymru** | |
| | **Derbyniwyd**<br>Cynnig caffael Tŷ Henblas yng nghanol tref Wrecsam gan Wyddoniaeth Gogledd Cymru er mwyn adleoli Techniquest.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Amlinellwyd cefndir y cynnig, gan dynnu sylw at dynnu'r cyllid yn ôl gan Lywodraeth Cymru i sero erbyn Ebrill 2021, er bod Techniquest yn dibynnu ar y cyllid hwn. Diddymu'r cyllid hwn yn ôl oedd y sbardun i Fwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru ymchwilio i gynaliadwyedd yr is-gwmni elusennol yn y dyfodol.<br><br>Comisiynwyd adroddiad dichonoldeb gan Fwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru; ac roedd hyn wedi hysbysu'r cynigion a oedd yn cael eu cyflwyno, yn cynnwys yr amcangyfrifon incwm a niferoedd ymwelwyr potensial, wedi'i seilio ar waith ymchwil, yn cynnwys: amcangyfrifon poblogaeth, lleoliad atyniadau tebyg a'u data ymwelwyr a'r gystadleuaeth yn a thu allan i'r rhanbarth.<br><br>Roedd yr adroddiad dichonoldeb wedi adolygu'r data yng nghyd-destun Techniquest yn ymgymryd â gweithgareddau 'mewn cyrraedd' yn unig, gweithgareddau allgymorth yn unig, gyda phob un o'r tri senario yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y lleoliad cyfredol a lleoliad yng nghanol y dref. Nid oedd Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru wedi ystyried cau'r cwmni, yn unol ag ymrwymiadau'r Ymddiriedolwyr i ystyried y dewisiadau gorau er budd yr elusen. Ar hyn o bryd mae Techniquest wedi'i leoli yn nhu cefn campws Plas Coch. Penderfynwyd mai symud i leoliad newydd, gyda'r cyfle i ddenu mwy o ymwelwyr, oedd yr unig ddewis dichonadwy gan Fwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru ac roeddynt wedi cymeradwyo hynny.<br><br>Pan gododd y cyfle i gyflwyno cais i'r Gronfa Ysbrydoli Gwyddoniaeth, datblygwyd cynllun busnes gyda rhagfynegiadau'r niferoedd ymwelwyr a'r incwm wedi'u lleihau o gymharu â'r adroddiad dichonoldeb. Roedd y rhagfynegiadau hyn wedi'i lleihau eto gan y dadansoddiad sensitifrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd. Roedd y Gronfa Ysbrydoli Gwyddoniaeth wedi dyfarnu grant o £1.75m i Wyddoniaeth Gogledd Cymru, ond roedd hyn yn amodol ar gadarnhau'r cyllid TRIP gwerth £750k.<br><br>Cadarnhawyd mai'r pris prynu rhydd-ddaliad Tŷ Henblas oedd £400k + TAW, ond y gallai Gwyddoniaeth Gogledd Cymru hawlio'r TAW yn ôl.<br><br>Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid bod y Pwyllgor wedi craffu ar y cynigion ar 15 Chwefror ac eto mewn cyfarfod arbennig ar 7 Mawrth. Roedd y Pwyllgor wedi herio'r niferoedd ymwelwyr ac adolygu'r llif arian a'r effaith ar y Brifysgol. Hefyd cafodd y Pwyllgor gadarnhad na fyddai'r pryniant yn effeithio ar gyfamodau benthyciadau'r Brifysgol.<br><br>Roedd y Pwyllgor wedi ystyried y risgiau'n gysylltiedig gyda chaffael yr adeilad yn erbyn yr effaith ar enw da'r Brifysgol yn cau'r elusen heb roi'r cyfle iddi lwyddo mewn lleoliad newydd. Yn ychwanegol, roedd buddion potensial a allai ddeillio o weithio gyda'r partïon â diddodeb mewn adleoli i Dŷ Henblas, gan ddefnyddio gwagle nad oedd ei angen gan Techniquest.<br><br>Cadarnhawyd, fel rhan o'r amodau ynghlwm â'r cyllid Cronfa Ysbrydoli Gwyddoniaeth, y byddai'n ofynnol i Techniquest weithredu am wyth mlynedd yn dilyn ei adleoli, a byddai'n rhaid ad-dalu pob blwyddyn lawn yn weddill petai'r cyfleuster yn cau ynghynt na hynny. Y ddealltwriaeth oedd, petai Techniquest yn wynebu sefyllfa ansolfedd, byddai Gwyddoniaeth Gogledd Cymru, fel perchennog yr adeilad, yn cael ei ddal yn atebol i ad-dalu unrhyw gyllid perthnasol i'r Gronfa Ysbrydoli Gwyddoniaeth, ac nid y | |

| | | |
|---|---|---|
| | Brifysgol. Byddai hynny'n cael ei gadarnhau. Roedd y Brifysgol wedi cael ei chynghori hefyd, ar lafar, y byddai Llywodraeth Cymru'n annhebygol o geisio adfer y cyllid TRIP petai'r cyfleuster yn cau.<br><br>Roedd yr aelodau'n deall pe na bai'r cyllid TRIP yn cael ei ddyfarnu ei bod yn debygol y byddai angen cau'r cwmni oherwydd diffyg cyllid, er y byddai Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru'n adolygu'r sefyllfa ac yn gwneud cynigion dichonadwy i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Petai'r caffael yn cael ei gymeradwyo, unwaith y byddai Techniquest wedi adleoli byddai'n cael ei lansio a'i weithredu'n broffesiynol, yn wahanol i natur ymddangos yn achlysurol y ddarpariaeth darganfyddiadau gwyddoniaeth yn ddiweddar.<br><br>Mae gan Mr Barclay brofiad yn yr economi ymwelwyr ac awgrymwyd ei fod yn darparu cyngor ac arweiniad anffurfiol fel noddwr y Bwrdd yn yr un modd ag y gwnaeth Mr McGrady yng nghyswllt Campws 2025. Dywedodd Mr Barclay y byddai'n ystyried a allai ymgymryd â'r ymrwymiad hwn.<br><br>Daeth yr aelodau i'r casgliad bod y prosiect yn un gwerth chweil o bersbectif strategol a chadw enw da, gyda photensial rhagorol i weithio gyda phartneriaid allweddol. Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi tynnu sylw efallai na fyddai'r niferoedd ymwelwyr a ragfynegwyd yn cael eu gwireddu, a fyddai'n cael effaith ar yr hyfywedd ariannol, ac felly roedd y Bwrdd yn cefnogi awgrym y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid o lunio cynllun busnes newydd yn tybio cynyddu'r incwm o'r niferoedd ymwelwyr a'r gwariant dilynol ar raddfa arafach, ynghyd â phwyslais cryf ar farchnata, ac y gallai'r Pwyllgor ei ddefnyddio ar gyfer monitro perfformiad.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a CHYMWERADWYO caffael Tŷ Henblas (uned 2) gan Wyddoniaeth Gogledd Cymru ar gost o £400k + TAW (yn ddarostyngedig i sicrhau cyllid TRIP, archwiliadau, gwiriadau cyfreithiol a chael caniatâd newid defnydd) er mwyn i Techniquest Glyndwr adleoliad i'r adeilad; a hefyd yn ddarostyngedig i gadarnhau na fyddai'n ofynnol i'r Brifysgol fod yn gyfrifol am yr ymrwymiadau yn amodau'r grantiau Cronfa Ysbrydoli Gwyddoniaeth a TRIP. | |
| **18.64** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad rheolaeth ariannol Chwarter 2 (Awst i 31 Ionawr 2019).<br>(ii) Cysoniad rhwng rhagfynegiadau Rhagfyr ac Ionawr.<br>(iii) Tabl cyfleoedd a risgiau.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr adroddiad a oedd wedi'i addasu i fodloni gofynion cyflwyno adroddiadau'r Bwrdd. Tynnwyd sylw at yr amrywiadau allweddol rhwng rhagfynegiadau Rhagfyr ac Ionawr a nodwyd mai'r risg mwyaf oedd adfachu potensial cyllid CCAUC 2018/19 ar gyfer credydau rhan amser os nad ydynt yn cael eu cyflawni. Ni fu unrhyw adfachiad yn 2017/18 ac er bod oddeutu gwerth £600k o gredydau i'w cyflawni roedd gwaith arwyddocaol yn digwydd i sicrhau cyflawni'r rhain. Risg ychwanegol yw cynnydd yn y ffioedd FRS17 yn uwch na'r amcanbris rhagfynegol a ddarparwyd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.65** | **Arolwg Ymgysylltiad Staff** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cyflwyniad ar ganlyniadau eang yr arolwg ymgysylltiad staff 2018.<br>**Adroddwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddwyd mai'r gyfradd ymateb oedd 73% ac y defnyddiwyd yr un pecyn arolwg allanol ag a ddefnyddiwyd yn 2016 er mwyn caniatáu cymhariaeth rhwng yr holiaduron. Roedd y canlyniadau'r gadarnhaol iawn ar y cyfan, ac yn llawer o achosion bu gwelliannau ers 2016 er gwaethaf mynd trwy broses ailstrwythuro am fwyafrif yr amser ers yr arolwg blaenorol.<br><br>Croesawodd yr aelodau'r canlyniadau cadarnhaol, nodwyd y meysydd i'w gwella a'r camau nesaf, ac y byddai'r gweithredoedd yn deillio o'r broses lawn yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Ymgysylltu sy'n bodoli eisoes.<br><br>Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'i dîm am eu gwaith ar yr arolwg.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **16.66** | **Cynllun Ffioedd a Mynediad** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Cynllun Ffioedd a Mynediad Drafft 2020/21<br>(ii) Amrywiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad 2018 /19 a 2019/20<br><br>**Adroddwyd:**<br>Atgoffwyd yr aelodau am statws statudol y Cynllun Ffioedd a Mynediad a bod CCAUC a Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i ddangos aliniad gydag amcanion Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i ehangu mynediad yng Nghymru trwy wella cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru.<br><br>Roedd yr aelodau o'r farn ei fod braidd yn hir o ran ei ddiben arall o hysbysu myfyrwyr. Fodd bynnag, fe'u cynghorwyd ei bod yn un o'r dogfennau byrraf o blith rhai prifysgolion Cymru.<br><br>Gofynnwyd am adborth anffurfiol ar y cynllun gan CCAUC cyn ei gyflwyno'r derfynol. Gofynnwyd am gyngor gan Gyfreithiwr y Brifysgol ynghylch geiriad y ffioedd, yr oedd angen iddo ganiatáu hyblygrwydd i'r Brifysgol addasu ei ffioedd ar gyfer myfyrwyr newydd, a myfyrwyr cyfredol yn ystod blynyddoedd astudio yn y dyfodol, yn unol â'r uchafswm y caniateir ei godi yng Nghymru.<br><br>Cadarnhaodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr fod yr Undeb wedi darparu mewnbwn o ran y ddogfen ddrafft.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYMERADWYO bod y Brifysgol yn codi'r lefel ffioedd uchafswm a ganiateir yng Nghymru ar gyfer cyrsiau is-raddedig amser llawn, sydd wedi'i bennu ar £9k y flwyddyn ar hyn o bryd.<br><br>CYMERADWYO Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21 mewn egwyddor, yn ddarostyngedig i addasiadau terfynol.<br><br>CYMERADWYO dirprwyo i Gadeirydd y Bwrdd ystyried a CHYMERADWYO'R Cynllun Ffioedd a Mynediad terfynol i'w gyflwyno i CCAUC.<br><br>CYMERADWYO'R amrywiadau i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad 2018/19 a 2019/20 i'w cyflwyno i CCAUC. | |
| **18.67** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Cadeirydd am y datblygiadau a'r cyfarfodydd y bu'n rhan ohonynt ers cyfarfod Tachwedd 2019.<br><br>**18.67.01 Safonau ac Ansawdd**<br>Roedd CCAUC wedi anfon llythyr yn cadarnhau eu bod yn hapus gyda'r datganiadau Safonau ac Ansawdd a gyflwynwyd gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr. Rhannwyd y llythyr gyda'r holl lywodraethwyr ar 27 Chwefror.<br><br>Mae Adolygiad Gwella Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn parhau. Ymddengys bod y cyfarfod cyntaf ar 11 Chwefror wedi bod yn llwyddiannus, gyda'r Clerc wedi cymryd rhan o ran materion llywodraethu. Trefnwyd bod y Cadeirydd, yr Athro Sandra Jowett, Dr Jayne Mitchell, David Subacchi a Colin Heron yn cyfarfod y aseswyr fel grŵp ar 12 Mawrth.<br><br>**18.67.02 Materion allanol**<br>Mae'r Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion yn ymgynghori ynghylch adolygiad y Cod Llywodraethu Addysg Uwch, gyda dyddiad cau o 20 Mawrth. Bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn ymateb i'r cwestiynau ac yn rhannu hynny gyda'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br><br>Nid oedd y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd wedi medru mynd i gyfarfod Cadeiryddion Prifysgolion Cymru ar 14 Chwefror, ond nodwyd yn dilyn hynny eu bod yn ystyried y posibilrwydd o fodel arfer dda llywodraethu yng Nghymru, ochr yn ochr ag Adolygiad Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion, i'w drafod gydag Is-ganghellorion Cymru (trwy Brifysgolion Cymru) gyda mewnbwn gan Glercod ac Ysgrifenyddion, ac o bosib gael gwasanaethau uwch weinyddydd wedi ymddeol o'r tu allan i Gymru fel Cadeirydd annibynnol grŵp a fyddai'n edrych ar hyn.<br><br>Byddai'r Cadeirydd yn mynd i gyfarfod y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion yn Llundain ar 4 a 5 Ebrill ac mae adolygiad y Cod gan y Pwyllgor yn eitem ar yr agenda yno hefyd.<br><br>Byddai'r Cadeirydd yn mynd i ddigwyddiad Hyrwyddo Addysg Uwch i Brifysgolion Cymru yng Nghaerdydd ar 10 Ebrill hefyd. Roedd y Clerc wedi anfon nodyn dyddiad i'r dyddiadur yn flaenorol ond byddai'n anfon y gwahoddiad i bawb eto nawr bod modd bwcio lleoedd. Nodwyd bod y dyddiad hwn yn gwrthdaro gyda chynhadledd sbardun y Brifysgol i staff lywodraethwyr a myfyriwr lywodraethwyr.<br><br>**18.67.02 Materion eraill**<br><br>Trefnwyd bod cyfarfod blynyddol agored y Bwrdd i'w gynnal ddydd Llun, 8 Ebrill, fel cyfarfod brecwast rhwng 8.00am a 9.30am. Byddai gwahoddiadau'n cael eu hanfon yn fuan iawn.<br><br>Awgrymwyd y dylid cynnal cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai yn Llanelwy am 10.00am gyda'r cynnig i gael taith dywysedig cyn i'r cyfarfod ddechrau. CYTUNODD yr aelodau ar hyn. Nid oes unrhyw gyfleusterau'n ddigon mawr i gynnal cyfarfod Bwrdd yn safle Llaneurgain, ond gellid cynnal cyfarfod Pwyllgor yno a byddai hyn yn cael ei drefnu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **VB** |
| **18.68** | **Y Bwrdd Academaidd** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad ar y materion a gafodd eu hystyried gan y Bwrdd Academaidd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2019<br>(ii) Mapio'r Brifysgol yn erbyn Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd a Chod Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Nododd yr aelodau'r mapio'r arferion yn erbyn y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd a Chod Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y gofynnwyd amdano gan y Panel Craffu Ansawdd a Safonau, ac a ddarparwyd i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch fel rhan o'r Adolygiad Gwella Ansawdd a oedd yn digwydd ar hyn o bryd.<br><br>Nodwyd na chymrwyd rhan yn yr Arolwg Profiadau Myfyrwyr Ôl-raddedig am resymau ariannol. Serch hynny, cadarnhaodd y swyddogion y byddai rhyw ffurf o arolwg o brofiadau myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn cael ei gynnal maes o law. Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad fel rhan o'r adroddiad materion yn codi nesaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **VB** |
| **18.69** | **Risgiau Strategol Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Crynodeb o risgiau strategol corfforaethol y Brifysgol.<br>(ii) Map gwres risgiau<br><br>**Adroddwyd:**<br>Nodwyd bod perchnogion risg yn y broses o gynnal adolygiad cyfnodol y risgiau, y sgorau a'r camau lliniaru, gyda'r canlyniadau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth. Rhagwelwyd y byddai newidiadau i'r sgorau risg yn dilyn yr adolygiad.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.70** | **Cylchlythyrau ac ymgynghoriadau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Ymateb y Brifysgol i Adolygiad Annibynnol y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.71** | **Defnyddio Sêl y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar ddefnyddio sêl y Brifysgol ers Tachwedd 2018.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI bod y Sêl wedi'i defnyddio ar un achlysur ers Tachwedd 2018, fel y nodwyd yn yr adroddiad. | |
| **18.72** | **Dyddiadau ar gyfer 2019/20** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn 2019/20<br>(ii) Cynnig i wneud newid bach i gylch gwaith y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i leihau nifer y cyfarfodydd sy'n ofynnol o bump i bedwar y flwyddyn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Amlinellwyd rhesymeg addasu patrwm blynyddol dyddiadau'r cyfarfodydd, yn ogystal â'r rhesymau am awgrymu diwygio nifer cyfarfodydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i isafswm o bedwar cyfarfod y flwyddyn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI'R dyddiadau ar gyfer 2019/20.<br><br>CYMERADWYO'R newid bach yng Nghylch Gwaith y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i nodi y dylai gynnal isafswm o bedwar cyfarfod y flwyddyn. | |
| **18.73** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **18.73.01 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2019.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y cynigion rhagorol a dderbyniwyd gan yr Undeb Myfyrwyr ar gyfer eu grant bloc ar gyfer 2019/20 i 2022/23. Byddai'r deilliannau'n rhan o'r papurau cyllideb i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ym Mehefin ac i'r Bwrdd i'w cymeradwyo yng Ngorffennaf 2019.<br><br>Canmolwyd gwaith y tîm Cyllid o ran y gwelliannau arwyddocaol yn rheoli dyledion.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI bod cofnodion 15 Chwefror wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y Pwyllgor. | |
| | **18.73.02 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2019.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y drafodaeth a gafodd yr aelodau ynghylch diogelwch y cladin allanol ar ran o lety Pentref Myfyrwyr Wrecsam o safbwynt tân. Tra bo'r Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd bod y cladin yn bodloni gofynion cyfreithiol gofynnwyd am ragor o wybodaeth i ganfod a ellid gwneud mwy i wella a chryfhau'r diogelwch tân yn llety Pentref Myfyrwyr Wrecsam, i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Adnoddau Dynol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI bod y cofnodion 14 Chwefror wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod. | |